

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd
Prifysgol Cwm Taf gan Arolygiaeth
Gofal Iechyd Cymru 2015-16

Awst 2016

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Diben.....	2
2.	Trosolwg	2
3.	Themâu Allweddol.....	3
4.	Adolygiadau ac Ymchwiliadau Arbennig	6
5.	Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith	8
6.	Llywodraethu ac Atebolrwydd	10
7.	Ymgysylltu.....	12
8.	Gwaith Arolygu.....	13

1. Diben

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw prif arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Ein diben yw darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol i'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd er mwyn hyrwyddo gwelliannau.

Cynhyrchwyd yr adroddiad blynyddol hwn gan AGIC fel crynodeb o'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan AGIC rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Y canlyniadau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt o ganlyniad i'r gweithgarwch hwn yw:

- Bod profiad dinasyddion o ofal iechyd yn cael ei wella
- Bod dinasyddion yn gallu mynd at wybodaeth eglur a phrydlon ar ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Bod dinasyddion yn hyderus bod gwaith arolygu a rheoleiddio'r sector gofal iechyd yng Nghymru yn ddigonol, yn gymesur, yn broffesiynol, yn gydgysylltiedig ac yn ychwanegu gwerth.

2. Trosolwg

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGIC 21 arolygiad o leoliadau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, gan gynnwys:

- Dau arolygiad o ysbytai
- Pedwar arolygiad o bractisau cyffredinol
- Naw arolygiad o bractisau deintyddol
- Pedwar ymweliad yn ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- Un arolygiad o uned iechyd meddwl
- Un adolygiad o orchymyn triniaeth gymunedol.

O fewn y sector annibynnol yn ardal Cwm Taf, mae AGIC wedi cynnal arolygiad o ddeg lleoliad, gan gynnwys:

- Pedwar ymweliad yn ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- Tri arolygiad o unedau iechyd meddwl
- Un arolygiad o glinig IVF
- Dau arolygiad laser.

3. Themâu Allweddol

Yn ystod 2015-16, cynhaliodd AGIC waith amrywiol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Mae nifer o themâu allweddol wedi dod i'r amlwg trwy'r gwaith eleni. Ceir crynodeb o'r rhain isod.

Arolygiadau o Ysbytai'r GIG

Dangosodd yr arolygiadau gwnaethom eu cynnal fod y gwasanaethau, ar y cyfan, yn darparu gofal diogel, effeithiol, urddasol ac amserol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Rhoddodd y Gyfarwyddiaeth Iechyd Menywod a Phlant gryn bwyslais ar sicrhau bod pobl yn cael profiad cadarnhaol o'r gwasanaethau a ddarperir. Roedd yn amlwg bod y gyfarwyddiaeth yn gwneud pob ymdrech i wrando ar bobl sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd. Roedd y bwrdd iechyd hefyd yn mynd ati'n ymarferol i ofyn am safbwyntiau pobl ar ansawdd ac effeithiolrwydd ei wasanaethau.

Gwnaethom ganfod bod arweinyddiaeth a rheolaeth yn amlwg, yn gryf ac yn effeithiol yn y Gyfarwyddiaeth Iechyd Menywod a Phlant, wrth i uwch-nyrsys a rheolwyr wardiau roi disgrifiadau i ni o sut y maent yn ymdrechu i sicrhau safon uchel o ofal i'w cleifion. Yn yr holl fannau yr ymwelwyd â nhw, roedd y staff yn eglur ac yn wybodus am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau penodol ac yn mwynhau gweithio'n rhan o dimau a oedd wedi'u hen sefydlu.

Gwnaethom ganfod yn gyffredinol bod digon o staff, â'r wybodaeth a'r sgiliau cywir, i ddiwallu anghenion pobl.

Dangosodd trafodaethau gydag ystod eang o staff ar draws y Gyfarwyddiaeth Iechyd Menywod a Phlant, a chynnwys yr holiaduron staff AGIC a gwblhawyd, fod y bwrdd iechyd yn meithrin diwylliant o ddysgu ac unplygrwydd proffesiynol a phersonol.

Cyflwynodd AGIC llythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd o ganlyniad i'r arolygiad hwn. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod system addas ar waith ar gyfer adnabod a diogelu'r holl gleifion ar draws y sefydliad bob adeg. Ers hynny, mae AGIC wedi derbyn ymateb boddhaol gan y bwrdd iechyd o ran ei drefniadau monitro a nodwyd a'r camau a gymerwyd yn dilyn ein canfyddiadau. Cafwyd ymateb di-oed a boddhaol i'r llythyr sicrwydd ar unwaith.

Gwnaethom nodi hefyd bod angen gwneud peth gwelliannau o ran mynediad amserol i asesiad argyfwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ar gyfer plant a phobl ifanc o fewn y Gyfarwyddiaeth Iechyd Menywod a Phlant. Ymdriniwyd â'r agweddau hyn yn y cynllun gwella a gyflwynwyd gan y bwrdd iechyd. Eto, mae AGIC wedi derbyn ymateb boddhaol i'n canfyddiadau ers hynny.

Arolygiadau o Bractisau Deintyddol y GIG

Amlygodd yr arolygiadau a gynhaliwyd o fewn practisau deintyddol yn ardal Cwm Taf y themâu canlynol:

- Dywedodd y cleifion a/neu eu gofalwyr wrthym eu bod yn hapus gyda'u triniaeth ddeintyddol.
- Gwelsom fod timau staff mewn practisau wedi ymrwymo i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.
- Canfu ein harolygiadau fod angen i rai practisau wella er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio'n llawn â gweithdrefnau rheoli heintiau a dadheintio.
- Gwelsom hefyd fod angen i rai deintyddion wella eu gwaith o gadw cofnodion er mwyn dangos eu bod yn cynllunio gofal i hybu diogelwch a lles cleifion.
- Gwnaethom nodi bod angen i nifer o bractisau wneud gwelliannau i gofnodion cleifion parthed hanes meddygol cleifion a thystiolaeth bod hyn wedi cael ei drafod gyda'r claf.
- Roedd nifer o bractisau heb restr brisiau o'r gwasanaethau preifat. Mae hyn yn ofynnol fel bod cleifion yn dra hyddysg yn y costau sy'n gysylltiedig â'u triniaeth ddeintyddol.
- Nid oedd pob practis yn arddangos hysbysiadau cwynion ar gyfer gweithdrefnau cwyno'r GIG a deintyddiaeth breifat, nac ychwaith yn arddangos sefydliadau perthnasol eraill y gallai'r cleifion gysylltu â nhw ynglŷn â'u triniaeth megis AGIC ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Arolygiadau o Bractisau Cyffredinol

Gwnaethom gynnal nifer o arolygiadau o bractisau cyffredinol yn ystod 2015-16. Ym mhob achos, roedd y system apwyntiadau yn faes y gwnaeth yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth y gwnaethom eu gofyn sylwi arno. Yn arbennig, gwnaeth y cleifion grybwyll y broblem o beidio gweld y meddyg gwnaethant ei ddewis bob tro. Fodd bynnag, roedd rheolwyr practisau'n ymwybodol o hyn ac roedd yn ymddangos eu bod yn adolygu eu dull o drefnu apwyntiadau'n rheolaidd. Mae nifer o ddulliau wedi cael eu defnyddio yn y practisau, a sefydlwyd yn seiliedig ar adolygiadau priodol o adborth y defnyddwyr gwasanaeth.

Canfuom fod dulliau creadigol yn cael eu defnyddio i annog cleifion i reoli eu ffyrdd o fyw'n gadarnhaol. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau rheoli pwysau yn ystod ymweliadau'r cleifion. Roedd arddangosfa wybodaeth briodol yn ymddrin ag ystod o bynciau iechyd a ffordd o fyw, gan gynnwys manylion ar sut i gael mynediad at wasanaethau a'r rhifau ffôn cyswllt. Ar y cyfan, roedd y defnyddwyr gwasanaeth yn ymddangos yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarperir.

Roedd ymdeimlad cryf bod y gymuned yn ymroddedig i'r practisau unigol, gyda nifer o gleifion yn cyfeirio'n gadarnhaol at aelodau o'r tîm staff mewn practisau unigol. Nodwyd bod rôl rheolwr y practis yn elfen bwysig yn y practisau.

Yn amgylcheddol, lle'r oedd adeiladau practisau ar brydles, roedd problemau posibl o ran newidiadau ac estyniadau. Roedd gan nifer o'r practisau dimau bach gyda chymysgedd rhyw cyfyng iawn.

Nid oedd llythyrau sicrwydd yn ofynnol ac ni chyflwynwyd unrhyw lythyrau mewn perthynas â'r ymweliadau hyn.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl y GIG

Roedd yn dda gennym nodi bod y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein harolygiadau'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbytai.

Mewn un ysbyty, roedd pryderon ynghylch lefelau staffio'r nyrsys, yn arbennig gyda'r nos. Yn ystod ein harolygiad, gallai'r lefelau staffio fod wedi peryglu diogelwch cleifion a staff pe bai digwyddiad.

Mewn un ysbyty, nodwyd problemau sylweddol o ran yr amgylchedd a gwaith cynnal a chadw, a oedd yn cael effaith ar staff a chleifion.

Gwnaethom nodi bod y gwaith o ddarparu gorchmynion triniaeth gymunedol yn cael ei reoli trwy dîm amlddisgyblaethol, a oedd yn cynnwys staff o awdurdodau lleol a'r sector annibynnol. Roedd defnyddio gorchmynion triniaeth gymunedol yn galluogi cleifion i dderbyn gofal yn y ffordd leiaf rhwystrol, yn unol â'r hyn a nodir yng Nghod Ymarfer Iechyd Meddwl Cymru.¹

4. Adolygiadau ac Ymchwiliadau Arbennig

Yn ystod 2015-16, cynhaliodd AGIC adolygiad dilynol o'r trefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Cyhoeddwyd hyn ym mis Awst 2015. Asesodd yr adolygiad y datblygiad a wnaed yn erbyn yr adolygiad llywodraethu blaenorol a gyhoeddwyd yn 2012, a chanolbwyntiodd ar dri maes: ymarfer cyffredinol, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau strôc.

Yn gyffredinol, roedd AGIC yn fodlon ar y datblygiad a wnaed ers yr adolygiad blaenorol, gyda'r rhan fwyaf o'r meysydd yn dangos gwellhad. Amlygodd canfyddiadau'r adroddiad y ffordd yr oedd y bwrdd iechyd wedi esblygu dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd tystiolaeth bod y gwasanaethau iechyd meddwl wedi gwneud gwelliannau gan gynnwys symud gwasanaethau o fod yn yr ysbyty i fod yn y gymuned.

Nododd yr adolygiad hefyd rai meysydd oedd angen canolbwyntio arnynt, gan gynnwys peth anghysondeb ledled y bwrdd iechyd o ran dilyn prosesau a gweithdrefnau – er enghraifft, y dulliau ar gyfer cofnodi cwynion a digwyddiadau.

Adolygiad Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Yn ystod 2015-16, gwnaethom gyhoeddi adolygiad² o'r trefniadau llywodraethu clinigol sydd ar waith gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a sut roedd y rhain yn gysylltiedig â chanlyniadau ar gyfer cleifion. Wrth

¹ Canllaw ar gyfer ymarferwyr iechyd meddwl sy'n gorfod gwneud penderfyniadau o fewn cwrmpas Deddf Iechyd Meddwl 1983, gan lywio'r ffordd y rhoddir y ddeddfwriaeth ar waith. Mae'r Cod hefyd yn gweithredu fel canllaw i gleifion ac i'r sawl sy'n eu cefnogi a'u cynghori. <http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/816/Mental%20Health%20Act%201983%20Code%20of%20Practice%20for%20Wales%20Welsh%20version.pdf>

² <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/151221clinicalgovernancereviewcy.pdf>

ymgymryd â'r gwaith hwn, gwnaethom ganolbwyntio ar wasanaethau cardiaidd. Roedd canfyddiadau allweddol ein hadolygiad fel a ganlyn:

- Roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn mynd trwy gyfnod o drawsnewidiad, gan weithio tuag at roi rhagor o bwyslais ar ansawdd wrth gomisiynu gwasanaethau. Canfuom na fu'r ffocws hwn ar ansawdd yn bresennol bob amser yn y ffordd roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cyflawni ei swyddogaethau.
- Roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar, sy'n rhoi adolygiad o ganlyniadau ac effaith ei waith i leihau amseroedd aros gwasanaethau cardiaidd. Amlygodd yr adolygiad hwn ddiffygion yng ngweithdrefnau'r pwyllgor ar gyfer llywodraethu'r prosiect hwn – er enghraifft, ni roddwyd sicrwydd i ni fod y broses ar gyfer dewis darparwyr yn Lloegr yn cael ei dogfennu'n gadarn.
- Gwelsom wendidau yn y ffordd roedd Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cael ei weithredu. Er enghraifft, nid oedd gwybodaeth ynghylch pryderon cychwynnol yn glŷn ag amseroedd aros cardioleg wedi cael ei hadrodd i'r pwyllgor mewn modd amserol.
- Mae ein hadolygiad yn codi'r cwestiwn a all Cyd-bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru fod yn gorff gwneud penderfyniadau sy'n wirioneddol annibynnol pan fydd yn cynnwys darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau arbenigol yng Nghymru.
- Mae amgyffrediad allanol bod rôl a chyfrifoldeb Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru o ran rheoli gwasanaethau arbenigol yn aneglur.

Yn gyffredinol, mae ein hadolygiad wedi pwysleisio bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar ddechrau'r broses o gryfhau ei drefniadau llywodraethu clinigol.

Mae angen i bob bwrdd iechyd ddysgu gan yr adolygiad hwn ac ystyried y camau gweithredu y mae'n rhaid iddynt eu cymryd.

Gwerthusiad o adolygiadau dynladdiad a gynhaliwyd gan AGIC ers 2007

Yn ystod 2015-16, cyhoeddodd AGIC werthusiad o'r adolygiadau dynladdiad³ a gynhaliwyd ganddi ers 2007. Pwrpas y gwerthusiad oedd asesu effaith adroddiadau AGIC, a'r argymhellion a gyhoeddwyd ers 2007, ar wasanaethau sy'n cael eu darparu i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl.

Dyma'r themâu cyffredinol yr ymdriniwyd â nhw yn adroddiad gwerthuso AGIC:

- Cynllunio gofal, asesu, ac ymgysylltu â theuluoedd/gofalwyr
- Rheoli risg
- Diagnosis
- Cynllunio rhyddhad ac ôl-ofal
- Gwasanaethau integredig a chydgyssylltiedig
- Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth.

Gwelsom fod effaith ein hadroddiadau wedi bod yn amrywiol. Roedd rhai sefydliadau nad oeddent yn destun adolygiad uniongyrchol wedi sefydlu eu proses fewnol eu hunain i ystyried yr argymhellion o bob adroddiad. Fodd bynnag, nid oedd gan rai sefydliadau broses neu ddull ffurfiol ar waith i sicrhau dysgu ehangach yn sgil ein hadroddiadau. Cododd rhwystrau i weithredu'r argymhellion pan oedd angen camau gweithredu ar draws nifer o sefydliadau neu asiantaethau, gan gynnwys cyrff nad ydynt yn gyrrff iechyd. Fodd bynnag, dywedodd yr holl randdeiliaid a fu'n destun adolygiad bod ein hadolygiadau'n werthfawr iawn ac y dylid parhau â nhw.

Mae AGIC wedi gwneud newidiadau i'r ffordd y mae'n cynnal yr adolygiadau hyn, yn benodol er mwyn hybu dysgu ymysg rhanddeiliaid sy'n rhan uniongyrchol o bob adolygiad. Mae AGIC yn gofyn i'r holl fyrddau iechyd ystyried sut maent yn dysgu yn sgil yr adolygiadau hyn, yn arbennig os nad oeddent yn rhan uniongyrchol o ymchwiliad a gynhaliwyd gan AGIC.

5. Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith

Camau Dilynol

³ <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/160307homicidereviewreportcy.pdf>

Yn dilyn pob un o'n harolygiadau, gwnaethom gyhoeddi adroddiad arolygu o'n canfyddiadau. Lle'r oeddem wedi nodi bod angen gwelliant, roedd hefyd yn ofynnol gennym fod y bwrdd iechyd neu'r practis yn darparu cynllun gwella ar ein cyfer yn nodi sut roeddent yn mynd i gyflawni'r gwelliannau.

Roedd y cynlluniau gan y bwrdd iechyd wastad yn fanwl a chadarn ac fe'u derbyniwyd o fewn terfynau amser. Cafodd pob ymateb ei werthuso'n unigol gan AGIC a gofynnwyd am wybodaeth bellach a sicrwydd yn ôl yr angen. O ganlyniad, rhoddodd yr ymatebion sicrwydd digonol i ni fod y gwelliannau a nodwyd naill ai wedi neu wrthi'n cael sylw gan y corff a archwiliwyd. Yn ogystal, darparwyd y cynlluniau gan bractisau deintyddol o fewn yr amserlen benodedig ar y cyfan.

Gwnaethom ysgrifennu at y bwrdd iechyd yn 2015 i holi am y cynnydd a oedd yn cael ei wneud o ran y gwelliannau a nodwyd yn ein harolygiadau yn ystod 2014-15. Rhoddwyd sicrwydd i ni fod y bwrdd iechyd wedi cymryd camau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r gwelliannau gwnaethom eu nodi a/neu ei fod wedi darparu tystiolaeth i ddangos bod cynnydd digonol wedi cael ei wneud mewn ymateb i'r rhan fwyaf o'r materion hyn.

Mae AGIC wedi cael peth sicrwydd ychwanegol yn hyn o beth yn ystod ein rhaglen o arolygiadau ysbytai yn ystod 2015-16. Er i ni ymweld â gwahanol ardaloedd clinigol, gwnaethom ystyried argymhellion y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn er mwyn penderfynu a oedd y materion hyn yn gyfyngedig i'r ardaloedd a arolygwyd yn 2014-15 neu a oeddent yn amlwg mewn man arall yn y bwrdd iechyd.

Roedd hi'n amlwg o'r gwaith dilynol hwn bod y bwrdd iechyd yn defnyddio ein harolygiadau i wella safon a diogelwch ei wasanaethau trwy sicrhau y gweithredir yr argymhellion a wneir gan AGIC ac na ailadroddir yr un camgymeriadau mewn manau eraill o fewn y bwrdd iechyd.

Sicrwydd ar Unwaith

Lle y gwnaethom nodi perygl i ddiogelwch cleifion a oedd angen camau gwella ar unwaith, gwnaethom gyflwyno llythyrau i'r bwrdd iechyd a phractisau yn unol â phroses sicrwydd ar unwaith AGIC.

Yn ystod 2015-16, gwnaethom gyflwyno dau lythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd. Wrth arolygu Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg, gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith am i ni nodi nad oedd bandiau llawes adnabod ar waith ar gyfer pob claf mewnol oedd yn fabanod/plant ac yn bobl ifanc.

Yn dilyn ein harolygiad o'r gwasanaeth iechyd meddwl yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith ynghylch:

- Niferoedd staffio isel ar ddwy o'r wardiau a allai fod wedi effeithio ar ddiogelwch cleifion
- Dodrefn anaddas nad oeddent yn briodol i'r math o ward iechyd meddwl oherwydd bod ganddynt osodiadau y gellid eu defnyddio i achosi hunan-niwed.

Ar y ddau achlysur, ymatebwyd yn amserol i'r materion hyn.

Gofal Iechyd Annibynnol

Yn ogystal, gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith i ddarparwr annibynnol yn dilyn arolygiad laser yn Little Acorns a nododd fod angen nifer fawr o welliannau, a nifer ohonynt mewn perthynas â thorri Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. O ystyried graddau ein pryderon, hysbysodd AGIC y gwasanaeth y dylai roi'r gorau i ddarparu pob triniaeth laser ar gyfer cleifion tan iddo gymryd camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â'r achosion o dorri rheoliadau a darparu sicrwydd digonol i AGIC o'r camau a gymerwyd i gydymffurfio â'r rheoliadau. Yn dilyn yr arolygiad, gwnaeth y gwasanaeth roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau sy'n mynnu cofrestriad a datgofrestru.

6. Llywodraethu ac Atebolrwydd

Amlinellir trefniadau llywodraethu GIG Cymru yn y ddogfen *Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da yn GIG Cymru*⁴. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn gyfrifol am ansawdd a diogelwch y gwasanaethau mae'n eu darparu a'u comisiynu.

⁴Mae *Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da yn GIG Cymru* yn disgrifio swyddogaethau a chyfrifoldebau a'r hyn y mae angen ei roi ar waith i geisio a darparu sicrwydd ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Safe%20Care%2C%20Compassionate%20Care%20-%20Welsh%20Final%20version%20for%20publication%20-%20January%202013.pdf>

Fel yr amlinellwyd uchod, yn ystod 2015-16 cynhaliodd AGIC adolygiad dilynol o drefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ac adolygiad o drefniadau llywodraethu clinigol Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

Yn ogystal, mae AGIC wedi arsylwi ar nifer o bwyllgorau ansawdd a diogelwch a gynhelir ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Mae arsylwi ar y pwyllgorau hyn wedi rhoi eglurder i AGIC ar y dull strategol ar gyfer asesu ansawdd a diogelwch yn y bwrdd iechyd. Yn y pwyllgorau hyn, rydym wedi gweld adroddiadau arolygu AGIC yn cael eu harchwilio, ynghyd â'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig, gan staff ac aelodau annibynnol.

Gweledigaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yw "gofalu am ein cymunedau a'n cleifion trwy atal afiechyd, hybu iechyd gwell, darparu gwasanaethau rhagorol, a lleihau'r angen am ofal cleifion mewnol ble bynnag y bo modd trwy ddarparu gofal cryfach yn y cartref, yn y gymuned a chan ddarparwyr gofal sylfaenol".

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru yn cwblhau hunanasesiad o'i safle o ran modiwl llywodraethu ac atebolrwydd Safonau Gofal Iechyd Cymru, gan ddyfarnu sgôr ar gyfer eu lefel aeddfedrwydd ar raddfa o 1-5.

Roedd yr hunanasesiad a gynhaliwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar gyfer 2014-15 yn dangos bod y sefydliad yn gwerthuso ei drefniadau llywodraethu fel rhai effeithiol. Yn arbennig, dangosodd y canlynol:

O dan y thema 'Pennu Cyfeiriad', roedd y bwrdd yn teimlo ei fod wedi arddangos aeddfedrwydd ar Lefel 4 a'i fod yn llywodraethu ei fusnes yn dda, gan bwysleisio prosesau sicrwydd cryfach a'r dangosfwrdd perfformiad integredig. Nododd y bwrdd aeddfedrwydd ar Lefel 4 ar gyfer y thema 'Galluogi Cyflenwi', gan bwysleisio'r gwelliannau i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r broses adolygu marwolaethau, a rannwyd fel enghraifft genedlaethol. Yn yr un modd, ar gyfer y thema 'Cyflenwi Canlyniadau, Cyflawni Rhagoriaeth', gwnaeth y bwrdd iechyd ddyrannu sgôr aeddfedrwydd i'w hun ar Lefel 4.

Yn ogystal, daeth datganiadau o Adroddiad Blynyddol 2015 Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i'r casgliad bod "trefniadau llywodraethu'n parhau i esblygu ond bod rhai agweddau, yn arbennig TGCh, yn gwneud cynnydd annigonol, a bod cyflawni balans ariannol ar gyfer 2015-16 yn parhau i fod yn her".

7. Ymgysylltu

Mae AGIC wedi arsylwi ar nifer o gyfarfodydd ansawdd a diogelwch ac rydym wedi derbyn gwahoddiad ac wedi mynychu digwyddiadau a gynhaliwyd gan y bwrdd iechyd a oedd yn amlygu gwelliannau lleol i brosesau.

Mae rheolwr perthynas a phrif weithredwr AGIC wedi cwrdd â phrif weithredwr a chadeirydd y bwrdd iechyd yn ystod y flwyddyn. Hefyd, mae nifer o staff AGIC wedi bod mewn trafodaethau ar amryw faterion gyda staff y bwrdd iechyd. Ar bob achlysur, mae'r bwrdd iechyd wedi ymateb i geisiadau am gyfarfodydd yn gadarnhaol ac yn gyflym. Mae wedi bod nifer o achlysuron pan ysgrifennodd AGIC at y bwrdd iechyd i ymchwilio i bryderon penodol mewn perthynas â gwybodaeth leol ac mae'r rhain hefyd wedi cael eu hymdrin yn briodol. Pan ofynnwyd iddo, rhannodd y bwrdd iechyd ei ymchwiliadau gydag AGIC. Ar ambell achlysur, mae amseroldeb yr adroddiadau mewnol hyn wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl, o bosibl oherwydd eu bod yn gymhleth.

Ymdriniwyd yn gyflym â llythyrau sicrwydd ar unwaith a derbyniwyd ymatebion i ganfyddiadau arolygiadau'n gyflym hefyd.

8. Gwaith Arolygu

Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Arolygiadau o Ysbytai

1. Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl	28 Mehefin 2015
2. Ysbyty Brenhinol Morgannwg	16 Hydref 2015

Arolygiadau o Bractisau Meddygon Teulu

3. Practis 1, Parc Iechyd Keir Hardie, Heol Aberdâr, Merthyr Tudful, CF47 1BZ	16 Chwefror 2016
4. Meddygfa St David's, St David's Street, Tonpentre, CF41 7BD	23 Chwefror 2016
5. Meddygfa Penygraig, George Street, Penygraig, CF40 1QN	1 Mawrth 2016
6. Talbot Green Group Practice, New Park Surgery, Heol-y-gyfraith, Llantrisant, CF72 8AJ	8 Mawrth 2016

Arolygiadau Deintyddol

7. The Dental Surgery, 5 Ceridwen Terrace, Pontypridd, CF37 4PD	16 Mehefin 2015
8. Uned Addysgu Ddeintyddol Porth, Leith House, 5-6 Pontypridd Road, Porth, CF39 9PH	23 Mehefin 2015
9. Bryant Dental Practice, 18-19 High Street, Treorci, CF42 6AA	7 Gorffennaf 2015
10. Cyfarthfa Dental Care, Rookwood House, Gwaelod-y-garth Lane, Merthyr Tudful, CF47 8EX	2 Rhagfyr 2015
11. Whitcombe Dental Surgery, 19 Whitcombe Street, Aberdâr, CF44 7AU	5 Ionawr 2016
12. Maendy Dental Practice, 3 Maendy Place, Aberdâr, CF44 7AY	9 Chwefror 2016
13. Dental Department, Parc Iechyd Keir Hardie, Heol Aberdâr, Merthyr Tudful, CF48 1BZ	23 Chwefror 2016
14. IDH Courtyards Dental Centre, 73-75 Talbot Road, Tonysguboriau, Pont-y-clun, CF72 8AE	8 Mawrth 2016
15. Goodwin Partnership DBS Ltd, 21 Grawen Street, Porth, CF39 0BU	9 Mawrth 2016

Deddf Iechyd Meddwl

16. Tŷ Llidiard, Pen-y-bont ar Ogwr (dwy ward)	12 Mai 2015
18. Tŷ Pinewood, Treorci	11 Awst 2015
19. Ysbyty Brenhinol Morgannwg	13 Hydref 2015

Uned Iechyd Meddwl

20. Ysbyty Brenhinol Morgannwg	13 Hydref 2015
--	----------------

Arolygiadau o Orchmynion Triniaeth Gymunedol

21. Cwm Taf	16 Tachwedd 2015
-----------------------------	------------------

Gofal Iechyd Annibynnol**Deddf Iechyd Meddwl**

1. Heatherwood Court (dwy ward)	2 Mehefin 2015
3. Priory, Aberdâr	11 Ionawr 2016
4. Priory, Pentre'r Eglwys	22 Mawrth 2016

Uned Iechyd Meddwl

5. Heatherwood Court	2 Mehefin 2015
6. Priory, Aberdâr	11 Ionawr 2016
7. Priory, Pentre'r Eglwys	22 Mawrth 2016

IVF

8. Centre for Reproduction and Gynaecology Wales (CRGW)	12 Ionawr 2016
---	----------------

Laser

9. Bliss Beauty by Cerys	11 Ionawr 2016
10. Little Acorns	19 Ionawr 2016